**Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg**
**Education, Culture and Welsh Language Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

9 Hydref 2024

Annwyl Mr Crompton

Diolch am eich adroddiad ar Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub a gyhoeddwyd ar 10 Medi.

Atodir y Ffurflen Ymateb Rheolaethol wedi'i chwblhau sy'n dangos ein bod yn derbyn yn llawn yr argymhelliad y mae Archwilio Cymru wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgysylltu rhywfaint ag Awdurdodau Lleol, Cadeiryddion yr Awdurdodau Tân Achub a Chomisiynwyr GTADC ar ddiwygio trefniadau llywodraethu'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac rydym yn ystyried yr adborth a gawsom. Rydym yn bwriadu ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid yn ystod y misoedd nesaf i lywio ein cynigion ymgynghori cyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol yn 2025. Yn dilyn yr ymgynghoriad rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth yn 2026 a gweithredu trefniadau llywodraethu newydd ar ôl hynny.

Elfen allweddol o'n hystyriaethau yw sicrhau bod gan aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub y sgiliau, yr wybodaeth a'r arbenigedd priodol i ymgymryd â'r rôl, a bod trefniadau ar waith i adolygu hyn. Byddwn hefyd yn cynnwys yn ein hystyriaethau yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn eu hadroddiad "Seinio'r Larwm".

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400

Byddwn yn rhannu ein cynigion manylach â chi maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Sioned Evans,
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Director General, Education, Culture and Welsh Language Group

# Ffurflen ymateb rheolaethol

Archwilio Cymru
Audit Wales

**Teitl adroddiad:** Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub

**Dyddiad cwblhau:** [dyddiad]

**Cyfeirnod y ddogfen:** Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub | Audit Wales

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am ba weithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r model llywodraethu er mwyn sicrhau bod:<br>• aelodaeth awdurdodau tân ac achub yn sicrhau gwybodaeth, arbenigedd ac amrywiaeth briodol i gyflawni eu rolau llywodraethu yn effeithiol; a<br>• trefniadau atebolrwydd clir i werthuso cyfraniad aelodau ATA yn rheolaidd. | Rydym yn derbyn yr argymhelliad. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ac yn bwriadu ymgynghori ar y rhain yn 2025, gyda'r nod o gyflwyno is-ddeddfwriaeth ddiwygiedig yn 2026. Bydd y cynigion yn cwmpasu'n llawn yr argymhelliad a wnaed gan Archwilio Cymru ynghylch aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub. | 2025 - Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer diwygio trefniadau llywodraethu'r Gwasanaeth Tân ac Achub<br><br>2026 – Cyflwyno is-ddeddfwriaeth | Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Diogelwch Cymunedol |